Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Gwdihw**

**Canolfan Gymunedol Bryntirion a Threlales**
**Bryntirion**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 4EH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/07/2023

# Cylch Meithrin Gwdihw

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Lisa Jackson |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Medi 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nodi â Llaw]<br><br>Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant wedi setlo'n dda ac yn hapus i gymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael. Maent yn datblygu cydberthnasau agos â'u cyfoedion a gyda'r oedolion sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i gyfathrebu a gwneud dewisiadau am yr hyn y maent am chwarae ag ef a ble yr hoffent chwarae.

Mae'r staff yn dilyn y rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo llesiant a ffyrdd iach o fyw. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn ddigonol. Maent yn adnabod y plant ac yn cynnig cyfleoedd iddynt archwilio eu diddordebau. Mae'r staff yn ymateb i anghenion y plant yn dda ar y cyfan.

Nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel. Maent wedi rhoi mesurau ar waith yn ddiweddar i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn cynnig dewis digonol o adnoddau da i'r plant sy'n diwallu eu gofynion unigol a'u camau datblygu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn brofiadol ac yn amlwg yn awyddus iawn i ddarparu gofal o ansawdd da. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn sicrhau eu bod yn bodloni'r holl reoliadau na'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt bartneriaeth dda â'r rhieni a'r gymuned leol.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lais da. Maent yn cyfathrebu'n dda ac yn setlo'n hawdd i'r lleoliad. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau. Maent yn symud o amgylch yr amgylchedd yn hwylus, gan ddewis ble yr hoffent chwarae a chael gafael ar yr adnodau yr hoffent chwarae â nhw. Ar y cyfan, caiff dymuniadau'r plant eu hystyried. Er enghraifft, gallant ddilyn eu diddordebau eu hunain ac nid oes rhaid iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd os nad ydynt am wneud hynny.

Mae'r plant yn hyderus ac yn hapus. Maent yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd a'r staff. Mae'r plant yn gartrefol yn yr amgylchedd ac yn archwilio'r ardal yn rhydd. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn; er enghraifft, eisteddodd y plant gyda'i gilydd gan fwynhau cymryd rhan yn ystod amser cylch.  Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn y lleoliad o ddydd i ddydd, ac yn symud o amgylch yn annibynnol. Er enghraifft, roeddent yn chwarae'n hapus wrth y bwrdd crefftau cyn symud i'r ardal chwarae rôl yn annibynnol i ymuno â'u ffrindiau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Ar y cyfan, maent yn cydweithio'n dda ac yn dysgu i rannu adnoddau. Caiff unrhyw fân anghytundebau eu datrys yn hawdd. Maent yn datblygu moesau da ac yn dysgu sut i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau sydd ar gael yn hwylus ac yn hapus. Maent yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored yn fawr iawn, gan ddefnyddio'r beiciau a'r llithren a chwarae cuddio gyda'r staff. Yn ystod amser cylch, gwnaeth bron pob plentyn ymuno a chymryd ei dro i nodi lliwiau a rhifau ac ymateb i gwestiynau am y tywydd.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth o gyfleoedd sy'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad ac sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygu. Er enghraifft, gwisgo i fyny, chwarae rôl yn y swyddfa bost a reidio beiciau yn yr awyr agored. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i fod yn annibynnol. Gall y rhan fwyaf o'r plant wneud pethau drostynt eu hunain, ond cynigir cymorth os oes angen. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynd i'r toiled ac yn golchi eu dwylo ar eu pen eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn llwyddo i ddefnyddio gefelau i weini ffrwythau iddyn nhw eu hunain yn ystod amser byrbryd.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r staff yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau digonol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn deall polisi a gweithdrefnau diogelu'r lleoliad yn ddigon da ac yn goruchwylio'r plant yn ddigonol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gosod gweithdrefnau amddiffyn plant manwl yn yr ystafell chwarae er mwyn helpu'r staff i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth ohonynt. Mae'r staff yn hyrwyddo ffordd iach o fyw drwy gynnig ffrwythau ffres a thost gyda diod o laeth a digon o gyfleoedd i'r plant fod yn yr awyr agored. Mae'r staff yn ymwybodol o alergeddau a dewisiadau bwyd y plant ac yn eu rheoli'n dda. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn cadw'r amgylchedd yn lân ac yn diheintio arwynebau yn rheolaidd. Maent yn glanhau unrhyw ollyngiadau ar unwaith. Mae'r staff yn hyrwyddo hylendid da. Maent yn sicrhau eu bod nhw a'r plant yn golchi eu dwylo ar adegau priodol ac yn gwisgo ffedogau i baratoi byrbrydau ac i newid cewynnau. Fodd bynnag, nid ydynt yn cwblhau cofnodion newid cewynnau mewn modd amserol.

Mae'r staff yn ymddwyn mewn ffordd ddigynnwrf a gofalgar. Maent yn adnabod y plant y maent yn gofalu amdanynt yn dda. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol ac mae'r staff yn datrys unrhyw fân anghytundebau yn hawdd a chan ddangos disgresiwn. Ceir polisi rheoli ymddygiad, ac mae'r staff yn ei roi ar waith yn briodol.

Mae'r staff yn darparu adnoddau a gweithgareddau sy'n briodol ar gyfer oedran y plant. Maent yn ymwybodol o ddiddordebau'r plant sy'n eu galluogi i osod teganau a gweithgareddau priodol yn yr ardal. Er enghraifft, maent yn gwybod bod rhai o'r plant yn hoff o ddeinosoriaid ac felly gwnaethant greu ardal ddeinosoriaid. Mae'r staff yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn dda. Er enghraifft, maent yn annog y plant i weini eu hunain yn ystod amser byrbryd. Mae'r staff yn dilyn cynllun gweithgareddau ond, gan fwyaf, maent yn cynnig dewisiadau rhydd i'r plant allu dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r staff yn diwallu anghenion unigol y plant yn llwyddiannus, ac mae llawer o'r staff yn ymwybodol o anghenion ychwanegol ac yn deall sut i'w diwallu. Mae'r staff yn cofnodi ac yn cynllunio ar gyfer dysgu a datblygu'r plant ac yn cadw ffeil cyflawniad. Mae llyfrau gwaith unigol y plant yn dangos tystiolaeth o weithgareddau unigol pob plentyn. Mae'r staff yn sgwrsio'n effeithiol â'r plant yn ddwyieithog.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Yn dilyn digwyddiad diweddar ac adolygiad o'r asesiadau risg, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi cyflwyno mesurau i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau i gadw'r plant a'r safle yn ddiogel. Mae'r staff bellach yn sicrhau bod y prif ddrws wedi'i gloi bob amser a dim ond pan fydd y rhieni yn gollwng neu'n casglu eu plant y caiff ei ddefnyddio. Maent bellach yn defnyddio'r allanfa dân gefn i fynd at yr ardal chwarae awyr agored a chaiff y plant eu goruchwylio wrth ddefnyddio'r grisiau gan nad yw'r canllaw wedi cael ei ailatodi eto ar ôl y gwaith adeiladu. Nid oes ffens ar hyd un ochr o'r ardal awyr agored. Mae'r staff yn defnyddio ffens blastig isel nad yw'n barhaol i gau'r bwlch ac yn sefyll mewn mannau addas i allu goruchwylio'r plant yn ofalus pan fyddant yn chwarae yn yr awyr agored. Er bod y mesur hwn yn lleihau'r risgiau i ddiogelwch y plant i ryw raddau, nid yw'n eu lleihau'n ddigon da. Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth eu bod wrthi'n cynnal trafodaethau â'r ganolfan gymunedol er mwyn cytuno ar ateb fwy cadarn i'r sefyllfa. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cwblhau asesiadau risg ac yn eu hadolygu'n rheolaidd. Maent yn sicrhau eu bod yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn eu cofnodi. Mae tystysgrifau yswiriant cerbyd addas ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd mewnol yn lân, yn gynnes ac yn addas ar gyfer plant. Mae'r lleoliad yn cael ei redeg o ystafell hunangynhwysol yn y ganolfan gymunedol. Er mai dim ond y lleoliad sy'n defnyddio'r ystafell yn ystod ei oriau gweithredu, mae defnyddwyr eraill y ganolfan gymunedol yn rhannu'r ardal. Felly, caiff trefn a chynnwys yr ystafell eu gosod a'u rhoi i gadw bob dydd. Mae gan y plant ddigon o le i chwarae neu i gael amser tawel ac mae dodrefn o faint sy'n addas i blant ar gael iddynt. Mae toiledau'r plant yn hawdd eu cyrraedd sy'n golygu y gellir datblygu eu hannibyniaeth. Mae ardal chwarae awyr agored o faint digonol ar gael at ddibenion chwarae corfforol ac er mwyn i'r plant gael awyr iach.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu dewis digonol o adnoddau da i'r plant. Mae'r adnoddau yn briodol ar gyfer oedran y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae'r staff yn sicrhau bod digon o adnoddau wedi'u gosod allan ac ar gael i'r plant bob dydd. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu cylchdroi er mwyn helpu i gynnal amgylchedd diddorol ac yn defnyddio byrddau i ddangos gwaith celf rhai o'r plant a gwybodaeth am y lleoliad.

| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth yn ddigonol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn brofiadol ac yn amlwg yn awyddus iawn i ddarparu gofal o ansawdd da. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth ddigonol o'u cyfrifoldebau rheoleiddio ac ar y cyfan, maent yn drefnus wrth adolygu polisïau a chofnodion. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Nid oeddent wedi rhoi gwybod i AGC am newidiadau i staff y gwasanaeth. Nid oeddent wedi adolygu eu datganiad o ddiben nac wedi'i ddiweddaru. Nid ydynt bob amser yn sicrhau bod cofrestrau yn cael eu cwblhau'n gywir nac mewn modd amserol. Nid oeddent wedi cael cydsyniad i gludo'r plant mewn cerbyd ac roedd yr yswiriant cerbydau a oedd wedi'i gadw ar ffeil wedi dod i ben. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae'r rhain yn feysydd i'w gwella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Yn dilyn yr arolygiad, darparodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddatganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael cydsyniad i gludo'r plant mewn cerbyd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi adolygu eu gwasanaeth. Mae ganddynt system ar waith i sicrhau eu bod yn cynnal hunanwerthusiad ffurfiol o'r gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad ar yr adolygiad o Ansawdd y Gofal yn dangos eu bod yn ymgynghori â'r rhieni, y staff, y plant ac asiantaethau allanol perthnasol er mwyn llywio eu hadolygiad. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu cynllun gweithredu sy'n anelu at gefnogi gwelliannau.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad system briodol ar waith i sicrhau y caiff staff addas eu cyflogi i weithio gyda'r plant. Maent yn cadw'r ddogfennaeth angenrheidiol yn ffeiliau'r staff ac yn eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd geirda yn ffeil un aelod o'r staff. Yn dilyn yr arolygiad, rhoddodd yr arweinwyr wybod i AGC bod y geirda coll bellach ar gael. Mae gan y staff y cymwysterau gofynnol ac maent wedi cwblhau'r holl hyfforddiant craidd, gan gynnwys diogelu, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Cadarnhaodd y staff eu bod yn mwynhau gweithio yn y lleoliad. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac maent yn mynd at yr arweinwyr am gymorth ac arweiniad os bydd angen. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn cael sesiynau goruchwylio nac arfarniadau blynyddol rheolaidd ac nid oes sesiynau o'r fath wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r teuluoedd, y gymuned leol, gweithwyr proffesiynol eraill a'r ganolfan gymunedol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni am eu plant mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy systemau electronig. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni am ddiwrnod eu plentyn pan fyddant yn eu casglu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Rhaid i'r darparwr sicrhau ei fod yn lleihau neu'n dileu pob risg i iechyd a diogelwch y plant cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. | Newydd |
| 30 | Rhaid i'r darparwr gymryd camau i sicrhau ei fod yn cadw cofnodion yn unol â'r rheoliadau. | Newydd |
| 31 | Rhaid i'r darparwr roi gwybod i AGC am newidiadau i'r staff ac unrhyw faterion perthnasol eraill mewn modd amserol. | Newydd |
| 29 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Cwblhau cofnodion newid cewynnau mewn modd amserol. |
| Cynnwys adran/cwestiwn ar ddiogelu yn y ddogfennaeth goruchwylio ac arfarnu. |
| Cael cydsyniad y rhieni i gludo'r plant mewn cerbyd. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/09/2023